Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

# CANLLAW I REOLWYR -

# DEFNYDDIO TEGANAU GWYNT YN DDIOGEL



## CYFLWYNIAD

Mae'r daflen wybodaeth hon yn defnyddio rhannau cymwys BS EN 14960-1:2019 o ran gofynion cofrestru, profi, gosod a goruchwylio cyfarpar chwarae chwythadwy. Rhaid i reolwyr gydymffurfio â'u dyletswyddau dan Adrannau 2 - 6 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974. Rhaid i weithredwyr gadw mewn cof adrannau perthnasol Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER) a phob rheoliad arall sy'n gymwys i fusnes y Rheolydd.

## DIFFINIADAU

**Dyfeisiadau chwythadwy -** Cyfarpar ffair sy'n strwythurau llawn aer a gynlluniwyd i ganiatáu defnyddwyr i fownsio, llithro neu ddringo arnynt. Maent wedi eu gwneud o ffabrig ystwyth, wedi eu cadw'n llawn aer gan un neu fwy o chwythwyr ac y maent yn dibynnu ar bwysedd aer i gadw eu siâp.

**Rheolwr -** Yr unigolyn, mudiad neu logwr (y sawl sy'n llogi i eraill) sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ddyfais chwythadwy, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros ei chynnal a'i chadw.

**Gweithredydd -** Yr unigolyn dros 18 oed ac a benodir gan y rheolwr i fod â gofal dros redeg y tegan gwynt ar unrhyw adeg pan y'i bwriedir i fod ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

**Cynorthwyydd -** Unrhyw un dros 16 oed ac a benodwyd i weithio dan reolaeth a chyfarwyddyd gweithredydd i gynorthwyo i gynnal y ddyfais chwythadwy.

## Dyletswyddau rheolwyr a gweithredwyr:

Bydd angen i berchenogion neu'r sawl sy'n cynnal dyfeisiadau chwythadwy gynnal asesiad risg o'u gweithgareddau i bennu pa gamau rheoli sy'n angenrheidiol i osgoi risg neu ostwng y risg i lefelau derbyniol. Mae'n weddol hawdd gwneud hyn o ddefnyddio gwybodaeth a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr am sut i'w gynnal yn ddiogel. Mae cynnal asesiad risg addas a digonol yn un o ofynion Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (fel y'u diwygiwyd)

# Ardustio cyfarpar

Mae dau gynllun ar gael i archwilio ac ardystio dyfeisiadau chwarae chwythadwy: Cynllun Gweithdrefn Archwilio Dyfeisiadau Diddanu (ADIPS) a Chynllun Achredu Perfformiadau Chwarae Chwythadwy (PIPA). Yn draddodiadol, bydd teganau gwynt a welir mewn ffeiriau traddodiadol a pharciau thema wedi cael eu profi dan ADIPS, tra bod teganau gwynt a geir mewn digwyddiadau fel garddwest, neu sy'n cael eu llogi i bartïon mewn cartrefi, etc. yn tueddu i fod wedi cael eu profi dan PIPA. Mae'r naill gynllun a'r llall yn caniatáu i weithredwyr gydymffurfio â'r gyfraith iechyd a diogelwch.

Dylai tegan gwynt a brofir dan y naill gynllun neu'r llall fod â thystysgrif diogelwch wedi'i rhoi gan archwiliwr annibynnol. Bydd gan bob tystysgrif rif unigryw. Os oes unrhyw amheuaeth am statws y dystysgrif, gellir cadarnhau trwy gysylltu â **Swyddfa ADIPS (Tel: 0191 516 6381 / E-bost office@adips.co.u**k) neu yn achos PIPA trwy wirio rhif tag y ddyfais yn erbyn y gronfa ddata ar www.pipa.org.uk.

Gallwch gyfeirio mwy o ymholiadau at **PIPA drwy e-bostio info@pipa.org.uk neu ffonio 01684 252910**. Os na ddefnyddir y naill gynllun na'r llall dylai'r rheolydd allu dangos ei fod wedi cymryd mesurau sydd yr un mor effeithiol i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Mae cynllun PIPA ar hyn o bryd ond yn ymdrin â chyfarpar sy'n dod dan gwmpas BS EN 14960 - 1:2019.**

**Bwriadwyd cynllun PIPA i'ch helpu i ddiwallu'ch rhwymedigaethau dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a dyma sy'n cael ei ystyried fel yr 'arfer gorau'. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a'r rheoliadau cysylltiol oll yn mynnu bod cyfarpar chwarae chwythadwy a "ddyluniwyd i'w ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd at ddibenion difyrrwch naill ai fel llithren neu i fownsio arno " yn cael ei brofi ar gyfnodau rheolaidd gan unigolyn medrus.**

**Mae cestyll bownsio, llithrennau chwythadwy a rasys rhwystr yn dod dan gynllun PIPA; nid yw rhediadau bynji a theirw rodeo yn dod dan y cynllun.**

## Archwilio'r Cyfarpar yn Rheolaidd

Yn ychwanegol at ardystio dyfeisiadau chwythadwy, mae Rheoliadau Darparu Cyfarpar Gwaith 1998 yn mynnu bod dyfeisiadau chwythadwy yn cael eu cynnal a'u harchwilio ar adegau addas er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dal mewn trefn ac mewn cyflwr da. Dylai unrhyw ddirywiad yn y ddyfais gael ei ganfod, a dylid cymryd camau unioni mewn da bryd.

## Profi'r Cyfarpar

Rhaid i bob tegan gwynt gael ei brofi ar adegau addas, fel arfer bob 12 mis, gan unigolyn cymwys. Mae arolygwyr a gofrestrwyd dan Gofrestr Ryngwladol yr Arolygwyr Chwarae (RPII) a Swyddfa ADIPS yn dderbyniol fel rhai cymwys at y diben hwn.

# Gwiriadau dyddiol

Dylai gwiriadau gael eu cynnal cyn eu defnyddio am y tro cyntaf ar unrhyw ddiwrnod, yn ôl cyngor a ddarperir gan y gwneuthurwr yn y llawlyfr am sut i'w gynnal. Dylai'r gwiriadau hyn gynnwys:

- ·Bod y safle'n dal yn addas, gyda chamau rheoli torfeydd os yw hynny'n briodol;
- Bod yr angorfeydd yn gyfan, wedi eu gwarchod lle bo angen, ac nad yw'r rhaffau wedi treulio na'u rhwbio;
- Bod y system angori yn clymu'r ddyfais chwythadwy yn effeithiol i'r ddaear;
- Nad oes unrhyw dyllau na rhwygiadau o bwys yn y ffabrig na'r semau;
- ·Bod y chwythwr cywir a nodwyd ar gyfer y ddyfais yn cael ei ddefnyddio a bod ypwysedd aer yn ddigonol i roi troedle cadarn a dibynadwy. Dylid bwrw golwg ar y pwysedd mewnol yn rheolaidd gyda manomedr;
- ·Nad oes unrhyw gysylltiadau trydan noeth, dim difrod gweladwy i geblau, plygiau, socedi na switsys trydan, nad yw'r offer yn cael ei orlwytho a'i fod wedi ei warchod yn addas gan RCD, a bod yr offer yn addas i'r amgylchedd lle'i defnyddir;
- Os defnyddir peiriant tanio mewnol, fod y cap tanwydd wedi ei osod yn gadarn ar y tanc tanwydd a bod unrhyw danc tanwydd wrth gefn yn addas ac mewn safle diogel;
- Bod bolltiau a sgriws y chwythwr wedi eu gosod yn ddiogel a bod gardiau cadarn wedi eu gosod dros y mannau lle mae aer yn mynd i mewn ac yn dod allan;
- Bod cysylltiad y chwythwr/tiwb chwythu mewn cyflwr da ac wedi ei osod yn sownd wrth y chwythwr;
- Bod y chwythwr wedi ei osod yn gywir, wedi ei warchod gyda gard digonol, ac nad yw'n debygol o achosi i neb faglu drosto;
- Rheolau chwarae wedi eu harddangos yn glir (e.e. tynnwch eich esgidiau; gadewch bopeth miniog, caled a pheryglus ar ôl; peidiwch ag yfed, bwyta na chnoi gwm tra byddwch yn defnyddio'r tegan gwynt).
- Nad yw uchafswm uchder cwympo ar bob ochr agored yn fwy na 750 mm;
- Bod pob arwyneb glanio caled wedi'i orchuddio â deunydd glanio meddal fel matiau campfa trwchus, neu ddeunydd tebyg, o leiaf 25 mm o drwch, yn ymestyn am bellter o 1.2 m o leiaf o'r ochr agored;
- Bod matiau diogelwch a ddefnyddir dan do yn gwrthsefyll tân.

**Peidiwch byth â chaniatáu defnyddio dyfais chwythadwy hyd nes bod unrhyw ddiffygion a nodwyd yn ystod y gwiriadau dyddiol wedi eu hunioni.**

# Gweithredu'r Tegan Gwynt yn Ddiogel

**Diogelu'r tegan gwynt:**

Mae'n hanfodol, os am weithredu'r ddyfais yn ddiogel, eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ynghylch defnyddio pwyntiau angori. Lle bo'r tir yn addas, dylid gosod y ddyfais yn ddiogel gyda stanciau daear. Mae modd defnyddio dull sydd yr un mor effeithiol ar arwynebau caled, e.e., gosod y rhaffau angori yn sownd i ffitiadau sydd eisoes ar y ddaear, bagiau tywod neu bwysau eraill, os gwyddoch beth yw goddefiant llwyth yr eitemau hyn. Rhaid i unrhyw system balast a ddefnyddir yn lle stanciau daear ganiatáu i ongl y clymu i'r ddaear gael ei gadw rhwng 30 a 45 gradd a gallu gwrthsefyll grym o 1600 N neu 163Kg ar bob un o'r pwyntiau angori a ddarperir.

Gallai balast addas fod yn un o'r canlynol (er enghraifft)

- ·Cynwysyddion diogel, dan sêl, wedi eu llenwi â dŵr – gyda phwynt gosod priodol ac yn pwyso o leiaf 163kg
- Bagiau balast, bagiau tywod neu bethau tebyg – gyda phwynt gosod priodol ac yn pwyso o leiaf 163kg
- ·Blociau concrid – gyda phwynt gosod priodol ac yn pwyso o leiaf 163kg

**Ni ddylid defnyddio strwythurau sefydlog (e.e. pyst ffens, meinciau), na gwrthrychau symudol mawr fel ceir/faniau, na wyddoch beth yw eu goddefiant llwyth, i angori dyfeisiadau chwythadwy. Rhaid i raffau a strapiau fod mewn cyflwr da heb unrhyw glymau diangen; rhaid i'r holl ddyfeisiadau cysylltu fod yn gaeedig, fel gefynnau D neu carabineri clwyd sgriw.**

Am fwy o wybodaeth ewch at is05-securing-inflatables-on-hard-standing-outside.pdf (pipa.org.uk)

**Amodau gwyntog a thywydd garw**

Ni ddylid defnyddio teganau gwynt pan fydd y gwynt neu hyrddiau o wynt dros y cyflymder gwynt diogel a nodir gan y gwneuthurwr. Mae'r diwydiant yn argymell uchafswm cyflymder gwynt o Rym 5 ar raddfa Beaufort, sef 30-38 kya (19-24 mya). Chwa o awel ffres yw Grym 5 pan fo dail ar goed bychain yn dechrau siglo; tra bod Grym 6 yn awel gref pan fydd canghennau mawr yn symud a'i bod yn anodd trin ambarél. Dylech gael rhagolygon tywydd gan y Swyddfa Dywydd cyn defnyddio teganau gwynt yn yr awyr agored, a rhaid monitro cyflymderau gwynt yn rheolaidd gydag anemomedr.

**Peryglon eraill:**

Dylai'r rheolydd neu'r gweithredwr ofalu bod y ddyfais chwythadwy wedi ei gosod ddigon pell i ffwrdd oddi wrth beryglon posib megis llinellau pŵer uwchben a rhwystrau gyda phethau'n ymestyn allan (e.e. ffensys).Os yw arwyneb y tir yn arw, yn seimlyd neu'n frwnt, dylech ddefnyddio llen ar y ddaear rhag i'r deunydd ar y gwaelod dreulio. Rhaid gosod neu warchod rhaffau a strapiau fel nad ydynt yn debygol o faglu neb.

.

**Goruchwylio**

Dylai'r rheolydd bennu isafswm nifer y cynorthwywyr fydd eu hangen i weithredu'r ddyfais yn ddiogel a sicrhau bod o leiaf dri o'r cymorthyddion hyn ar ddyletswydd pan fydd y ddyfais ar waith. Wrth benderfynu faint o gynorthwywyr sydd eu hangen, rhaid i'r rheolydd ystyried ffactorau megis nifer y bobl sy'n defnyddio'r ddyfais; oedran y defnyddwyr a'r amgylchedd lle defnyddir y ddyfais. Dylai cynorthwywyr fod yn 16 oed neu'n hŷn a dylai'r gweithredwr fod yn 18 oed o leiaf.

**Rheoli torfeydd**

Os dengys y broses asesu risg fod angen mesurau i reoli torfeydd mawr yn ddiogel yn agos at y tegan gwynt, dylai'r rheolydd ddarparu rhagfuriau rheoli torfeydd. Dylai rhagfuriau fod o leiaf 1m o uchder a gallu gwrthsefyll pobl yn pwyso arnynt, neu'n cael eu gwthio yn eu herbyn. Dylai'r ffens o gwmpas yr ymylon fod o leiaf 1.8m i 2.5m i ffwrdd oddi wrth bob ochr gaeedig, a 3.5m i 4m i ffwrdd oddi wrth unrhyw ochr agored i'r tegan gwynt. Dylai'r glwyd fod 1m o led. Lle na all y cyhoedd fynd at ochrau na chefn y tegan gwynt, neu na ragwelir y bydd llawer o dyrfa, yna gall safon is fod yn dderbyniol.

**Hyfforddi**

Os yw'r rheolydd yn gadael y digwyddiad preifat, rhaid i chi roi cyfarwyddyd i'r sawl a logodd y tegan gwynt gennych a throsglwyddo'n gyflawn er mwyn sicrhau bod pawb sy'n ei weithredu yn derbyn hyfforddiant effeithiol ar sut i weithio'r ddyfais, gan gynnwys:

- Dull o weithredu'r ddyfais;
- Dulliau diogel o'i roi at ei gilydd/dynnu i lawr, lle bo hynny'n gymwys; a sut i gynnal gwiriad dyddiol;

Dylai'r rheolydd wneud yn siŵr fod pawb sy'n gweithio'r ddyfais a'r cynorthwywyr yn derbyn hyfforddiant effeithiol ar sut i weithio'r ddyfais gan gynnwys:

- Mannau dod i mewn/gadael diogel i ddefnyddwyr;
- Angori'r tegan gwynt yn ddiogel;
- Mesurau rheoli torfeydd a systemau rhagfuriau;
- Mesurau i'w cymryd os bydd y pŵer yn methu;
- Sut i adrodd am ddamweiniau, diffygion neu dorri;
- Eich manylion cyswllt mewn argyfwng

## Adrodd am ddamweiniau

Dylech wneud yn siŵr, os digwydd unrhyw ddamwain, fod unrhyw rai a anafwyd yn cael eu trin yn gyntaf. Dylid rhoi hysbysiad am unrhyw ddamweiniau sy'n achosi anaf, gan gynnwys gweithredoedd treisgar a digwyddiadau peryglus, wrth yr awdurdod gorfodi gan yr "unigolyn cyfrifol" (fwy na thebyg, naill ai'r rheolydd neu'r gweithredwr).

Mae mwy o wybodaeth yng nghyhoeddiad yr HSE "Canllaw i'r RheoliadauAdrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013" yn http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm

## Ffynonellau gwybodaeth bellach:

**Archwilio Chwarae Chwythadwy PIPA - pipa.org.uk**

**Cynllun Gweithdrefn Archwilio Dyfeisiadau Diddanu (ADIPS) adips.co.uk**

**Gwefan yr HSE– hse.gov.uk**

**Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/contents/made**

**Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER) http://www.hse.gov.uk/pUbns/indg291.pdf**

**Taflen Wybodaeth yr HSE – Defnyddio a gweithio teganau gwynt chwythadwy. Gan gynnwys cestyll bownsio - http://www.krmgroup.com/PDF/HSE-INFLATABLE-GUIDE.PDF**

**Ffeiriau a Pharciau Diddanu: Canllaw ar Arferion Diogel HSG175 http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg175.htm**

**BS EN 14960 - 1:2019 Cyfarpar chwarae chwythadwy. Gofynion Diogelwch a dulliau profi (am wneuthuriad a rhedeg).**

**www.playinspectors.com**
**Cofrestr Ryngwladol Arolygwyr Chwarae Gwneud Chwarae yn Ddiogel**

